Digwyddiadau Ymgynghori Bus Users yn Nyffryn Conwy

23 Mawrth 2023 - Blaenau Ffestiniog a Llanrwst
18 Ebrill 2023 - Dolwyddelan

Ym mis Mawrth ac Ebrill eleni, cynhaliodd Bus Users yng Nghymru, mewn partneriaeth â Chyngor Conwy, Cyngor Gwynedd, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, sesiynau galw heibio ym Mlaenau Ffestiniog, Dolwyddelan a Llanrwst fel rhan o'r Ymgynghoriad Dyffryn Conwy.

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad yn sgil penderfyniad gan Llew Jones Coaches i roi terfyn ar ei wasanaethau T19 o Flaenau Ffestiniog i Landudno, a oedd yn gwasanaethu Dyffryn Conwy yng Ngwynedd a Chonwy, am nad oedd y gwasanaeth yn fasnachol hyfyw bellach. Mae'r cam hwn wedi effeithio'n arbennig ar Flaenau Ffestiniog, Dolwyddelan a Llanrwst sy'n ardaloedd o amddifadedd gwledig.

Roedd dros 30 o bobl yn bresennol ym mhob sesiwn a gofynnwyd iddynt gyflwyno tair prif flaenoriaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus neu eu pryderon dros golli gwasanaethau, a pha ddarpariaeth hoffent ei chael.

Materion

Amlder gwasanaethau, yn cynnwys prinder gwasanaethau gyda'r hwyr ac ar ddydd Sul
Codwyd y mater hwn gan y rhan fwyaf o'r mynychwyr:

"Mae cyfran fawr o bobl wedi ymddeol yn byw yn y dyffryn ac mae'r rhain yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus nid yn unig i deithio, ond i gynnal eu rhyddid i symud a'u lles meddyliol."

Mynediad at Addysg
Gan fod llawer o blant ysgol yn defnyddio'r gwasanaeth i deithio rhwng eu cartref a'r Ysgol a Choleg Llandrillo, mae hwn yn fater i lawer:

"Mae fy merch wedi dewis astudio ar gyfer ei lefel A yn Ysgol Dyffryn Conwy Llanrwst. Mae canslo'r bws bore o Flaenau Ffestiniog i Landudno wedi peryglu ei chynlluniau. Mae hi'n dibynnu ar y bws er mwyn medru gwneud y dewis gorau ar gyfer ei dyfodol."

Mynediad at Waith
Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gweithredu mewn trefi sydd â mynediad cyfyngedig o ardaloedd gwledig, yn enwedig y tu allan i oriau gwaith arferol:

"Nid oes unrhyw wasanaethau bellach ar ôl 1830 sy'n golygu ei bod yn amhosibl i unrhyw sy'n byw yn yr ardaloedd hyn weithio y tu allan i'r Dyffryn, ac eithrio yn ystod oriau swyddfa sylfaenol, neu os ydynt yn gyrru."

“Cartref gofal ydyn ni – mae gennym staff sy'n byw y tu allan i'r dref ac mae'r rhain yn ei chael hi'n anodd iawn cyrraedd y gwaith. Nid yw'r bysiau sydd gennym yn rhedeg ar amserau sy'n caniatáu i bobl leol gyrraedd y gwaith ar amser, ac yna maen nhw'n stopio'n gynnar fel bod y staff yn cael trafferth i gyrraedd adref.”

Mynediad at Ofal Iechyd
Roedd mynd i apwyntiadau gofal iechyd mewn ysbytai, a gweld meddygon teulu, optometryddion a deintyddion yn fater a godwyd gan lawer o bobl:

“Fel rhywun sydd ddim yn gyrru, mae gorfod dibynnu ar bobl i fynd â chi i apwyntiadau yn Ysbyty Llandudno yn anodd ac yn anghyfleus.”

“Dylai'r mynediad at Ddyffryn Conwy fod yn brif flaenoriaeth. Mae ymweld ag ysbyty neu optegydd yn amhosibl.”

“Methu mynd i Ysbyty Llandudno ar gyfer archwiliadau, methu mynd i'r banc neu at y deintydd a methu siopa am eitemau hanfodol.”

Mynediad at fannau manwerthu
Mae’r gallu i fynd i siopau a gweithgareddau hamdden yn hanfodol ar gyfer ffordd weithgar a boddhaus o fyw:

“Byddai colli'r bws yn golled anferth i ni yn Nolwyddelan. Mae cael gwasanaeth bws yn gymorth mawr ar gyfer mynd i siopa, mynd i apwyntiadau, y siop trin gwallt a'r llyfrgell yn Llanrwst.”

Integreiddio bysiau a threnau
Teimlwyd y byddai tocynnu integredig yn cynyddu'r dewisiadau teithio ac yn lleihau costau o bosib:

“Mae'r ffordd o drefnu'r amserlen bresennol ar gyfer y trenau, y bws 19 a'r 19X yn gadael bylchau mawr yn ystod y dydd pan nad oes trafnidiaeth, ac yna bydd bws a thrên yn rhedeg o fewn hanner awr i'w gilydd. Pe gellid trefnu'r amserlenni hyn mewn ffordd sy'n golygu llai o fylchau, byddai'n fuddiol iawn.”

“Oes modd gwneud rhywbeth a fyddai'n caniatáu i rywun deithio un ffordd ar y bws a'r ffordd arall ar y trên? Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewisiadau i deithwyr.”

“Mae'r trên yn ddrud – mae mynd i Landudno ar y bws yn fwy costeffeithiol.”

Darpariaeth gwybodaeth
Mae angen darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau i atal allgáu digidol:

“Dylai pobl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd fedru cyrchu amserlen bapur neu weld un wrth y safle bws.”

Teimlo'n Ynysig
Mae tlodi trafnidiaeth yn arwain i unigrwydd ac ynysigrwydd:

“Rydyn ni'n teimlo'n ynysig yma, mae pobl heb geir yn dibynnu ar fysiau.”

“Mae Dolwyddelan ar y brif gefnffordd rhwng Blaenau a Llandudno. Yn yr oes fodern hon, 'does bosib nad ydym yn haeddu gwasanaeth bysiau rheolaidd i gael at siopau/meddygon/optegwyr ac ati, ac i leihau'r defnydd o geir a thacsis.”

“Mae'n ymddangos i mi fod Blaenau wedi cael ei hanghofio.”

“Rwy'n teimlo bod Blaenau Ffestiniog yn cael ei gadael allan bob tro o ran unrhyw gynllunio a gwariant, ac am fod ganddi statws Treftadaeth y Byd UNESCO, dylid gwneud mwy i adfywio'r ardal.”

Materion amgylcheddol
Mae cynaliadwyedd yn destun pryder sylweddol:

“Dylai trafnidiaeth gydweddu â'r amgylchedd. Mae gormod o geir ar y ffordd!! Dylai trafnidiaeth gyhoeddus gael ei hyrwyddo. Mae diffyg hon yn achosi llygredd!!”

“Os ydych eisiau i bobl ddefnyddio ceir yn llai aml, a dw innau'n bendant eisiau defnyddio fy nghar yn llai aml, mae'n rhaid darparu trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a digonol.”

Gwasanaethau Trenau Amnewid
Codwyd nifer o faterion ynglŷn â gwasanaethau trenau amnewid, yn cynnwys dryswch ynglŷn â’r mannau casglu, bysiau ddim yn stopio i deithwyr, terfynu gwasanaethau yng Nghyffordd Llandudno, dim gwasanaethau i Ddeganwy a Llandudno, dim gwasanaethau cynnar, ac mewn rhai achosion dim gwasanaeth o gwbl.

Ateb gofynion lleol

Roedd y mwyafrif llethol o bobl eisiau gweld y gwasanaeth T19 yn dychwelyd, gyda gwasanaethau cynharach a diweddarach a fyddai’n cysylltu Dyffryn Conwy â Phorthmadog a Llandudno.

Ystyrir bod Fflecsi yn rhan o'r ateb os na ellir adfer y llwybr T19 sefydlog, gan gysylltu â'r gwasanaeth 19 yn Llanrwst neu Fetws-y-coed a darparu cysylltiadau i Landudno.

Mae'r sefyllfa bresennol yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd gan gymunedau ac mae'n arwain i ynysigrwydd ac unigrwydd, gyda'r holl effeithiau cysylltiedig ar iechyd a gofal cymdeithasol. Yn aml iawn, mae'r gost o ddelio â chanlyniadau'r toriadau mewn gwasanaethau bysiau yn gorbwyso'r gost o ddarparu’r gwasanaeth bysiau.

“Pam na ellir estyn y gwasanaeth Fflecsi i gynnwys Blaenau a Dolwyddelan?”

“Mae angen i’r bws Fflecsi gynnwys mwy o ardaloedd os nad yw'r bws presennol yn mynd i wella.”

“Mae angen rhyw fath ar wasanaeth trafnidiaeth i alluogi pobl i deithio rhwng Dolwyddelan a chysylltiadau trafnidiaeth eraill.”

“Mae angen newid y gwasanaeth trwy gael Bws Fflecsi Conwy i ddod i lawr i'r dref. Mae'r gwasanaeth trenau sydd i fod i ddisodli'r T19 yn annigonol (rhy annibynadwy, rhy ddrud ac nid yw'r amserlen yn gweithio i bobl leol).”

Ynglŷn â Bus Users

Mae Bus Users UK yn elusen sy'n ymgyrchu dros drafnidiaeth gynhwysol, hygyrch. Y ni yw'r unig Gorff Datrys Anghydfodau Amgen cymeradwy ar gyfer y diwydiant bysiau a choetsis, a'r corff dynodedig ar gyfer trin cwynion dan y Ddeddfwriaeth Hawliau Teithwyr ar Fysiau a Choetsis. Rydym hefyd yn rhan o'r Gynghrair Trafnidiaeth Gynaliadwy, grŵp sy'n gweithio i hybu buddion teithio cyhoeddus, a rennir, llesol.

Ar y cyd â'n gwaith gyda chwynion, rydym yn monitro ac yn ymchwilio i wasanaethau ac yn gweithio gyda gweithredwyr a darparwyr cludiant i wella'r gwasanaethau i bawb. Rydym yn rhedeg digwyddiadau, cynnal ymchwil, ymateb i ymgynghoriadau, siarad â phwyllgorau dethol

llywodraethau a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn y diwydiant i sicrhau bod llais y teithiwr yn cael ei glywed.

Mae Bus Users UK Charitable Trust Ltd yn elusen gofrestredig (1178677 a SC049144), ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (04635458).

Bus Users UK
22 Greencoat Place
Llundain SW1P 1PR

Ffôn: 0300 111 0001
enquiries@bususers.org
www.bususers.org